ATODLEN 3

Pasbortau gwartheg

# RHAN 1

## Pasbortau

### Dyroddi pasbort

**1.**—(1) Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn derbyn cais wedi ei gwblhau'n llawn ac yn gywir i gofrestru anifail o fewn y terfynau amser penodedig, rhaid iddo ddyroddi pasbort gwartheg ar gyfer yr anifail hwnnw.

(2) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddyroddi un os yw'n derbyn cais y tu allan i'r amser penodedig, ond dim ond os yw wedi'i fodloni am fanylion adnabod yr anifail a bod yr holl wybodaeth sydd yn y cais yn gywir.

(3) Erys y pasbort yn eiddo i'r Cynulliad Cenedlaethol bob amser.

### Cadw pasbortau gwartheg

**2.**—(1) Rhaid i geidwad gadw'r pasbort gwartheg ar gyfer pob anifail (oni chafodd ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol) a'i ddangos i arolygydd pan gaiff ei hawlio.

(2) Mae methu â chydymffurfio â'r paragraff hwn yn dramgwydd.

### Pasbortau gwartheg a gollwyd a phasbortau yn eu lle

**3.**—(1) Os bydd pasbort gwartheg yn cael ei golli, ei ddwyn neu ei ddifa, rhaid i geidwad yr anifail y mae'n ymwneud ag ef hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol yn ysgrifenedig o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl dod yn ymwybodol o'r ffaith a gwneud cais am basport o'r newydd yn ei le.

(2) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol roi pasbort gwartheg o'r newydd dim ond os yw wedi'i fodloni ei fod yn gallu olrhain symudiadau'r anifail ers ei eni neu ers ei fewnforio.

(3) Os nad yw Cynulliad Cenedlaethol yn darparu pasbort o'r newydd yn lle'r hen un, rhaid peidio â symud yr anifail y mae'n ymwneud ag ef oddi ar y daliad ac eithrio (o dan awdurdod trwydded a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol) i ganolfan gasglu a awdurdodwyd felly o dan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006(**1**).

(4) Os bydd person sydd wedi cael pasbort gwartheg o'r newydd yn lle'r hen un wedyn yn dod o hyd i'r pasbort gwartheg gwreiddiol, rhaid iddo hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn 7 niwrnod gan amgáu'r pasbort gwartheg gwreiddiol gyda'r hysbysiad.

(5) Bydd unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau'r paragraff hwn yn euog o dramgwydd.

### Ffioedd

**4.**—(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol osod ffi am roi pasbort gwartheg o'r newydd yn lle hen un.

(2) Y ffi yw'r swm y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried sy'n rhesymol i'w alluogi i dalu ei gostau wrth roi pasbort o'r newydd yn lle'r hen un.

(3) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol roi cyhoeddusrwydd i'r ffi ar ei wefan.

(**1**) O. S. 2006/1293 (Cy.127).

(4) Mae'r ffi'n daladwy gyda'r cais a nis ad-delir hi os bydd y ceisydd yn tynnu ei gais yn ôl neu os na fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gallu cael digon o wybodaeth i ddyroddi pasbort yn lle'r hen un.

### Atafaelu pasbortau gwartheg

**5.**—(1) Caiff swyddog o'r Cynulliad Cenedlaethol neu o awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad i geidwad yn ei gwneud yn ofynnol iddo ildio pasbort —

(a) os nad oes anifail ar y daliad ar gyfer y pasbort hwnnw;

(b) os nad yw'r pasbort yn disgrifio'n gywir yr anifail yr honnir ei fod yn gysylltiedig ag ef, neu os dyroddwyd y pasbort ar gyfer anifail gwahanol;

(c) os yw Rhif y tag clust yn y pasbort yn wahanol i rif y tag clust ar yr anifail;

(ch) os nad yr un yw manylion y symudiadau ar y pasbort a manylion y symudiadau yn y gronfa ddata a gedwir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â'r Rheoliadau hyn neu yn y cofnodion a gedwir gan y ceidwad yn unol â'r Rheoliadau hyn;

a bydd unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio â hysbysiad o'r fath yn euog o dramgwydd.

(2) Ni chaiff y Cynulliad Cenedlaethol ddychwelyd pasbort hyd nes y mae wedi'i fodloni bod y pasbort yn disgrifio'n gywir anifail ym meddiant y ceidwad a bod cofnodion o'r symudiadau yn y pasbort yn gywir.

### Anifeiliaid a gafodd eu dwyn

**6.** Os collir anifail â phasbort gwartheg neu os caiff ei ddwyn, rhaid i'r ceidwad anfon y pasbort gwartheg at y Cynulliad Cenedlaethol o fewn 7 niwrnod ar ôl dod yn ymwybodol o'r ffaith, ynghyd â manylion ysgrifenedig o'r hyn a ddigwyddodd, ac mae methu â gwneud hynny'n dramgwydd.

### Addasiadau

**7.** Mae'n dramgwydd i addasu neu ddifwyno unrhyw wybodaeth mewn pasbort gwartheg.

### Camddefnyddio pasbort

**8.** Mae'n dramgwydd i ddefnyddio pasbort gwartheg mewn cysylltiad ag anifail heblaw'r anifail y rhoddwyd ef ar ei gyfer.